

Pecyn Hyfforddiant Sylfaenol Cymru Gyfan
ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu **Fersiwn 3**

Cyflwyniad a chefndir



Cyflwyniad a chefnidir

Rhwng 2013 a 2014, aeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a Chyngor Gofal Cymru ati mewn partneriaeth i ddatblygu rhaglen o Hyfforddiant Sylfaenol ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu i'w defnyddio gan bobl sy'n cynorthwyo plant, pobl ifanc ac oedolion. Lanswyd y pecyn hyfforddi ym mis Medi 2014 ac roedd yn seiliedig ar uned 'Rhaglen Sefydlu ar Ddiogelu' Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd (QALL) y Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol (y fframwaith).

Mae'r pecyn gwreiddiol wedi'i ddiwygio yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r fersiwn newydd hon yn cynnwys newidiadau pwysig a dylid ei defnyddio yn lle'r fersiynau blaenorol.

Nodau'r cwrs

Mae'r cwrs wedi'i gynllunio er mwyn cyfleu nifer o werthoedd ac egwyddorion craidd ym maes diogelu unigolion a rhoi gwybodaeth sylfaenol i staff am sut i ymateb i achosion o gam-drin ac esgeuluso. Disgwylir y byddai'r sawl sy'n cymryd rhan yn ymgymryd â hyfforddiant a dysgu pellach sy'n berthnasol i'r grŵp penodol y maent yn gweithio â hwy h.y. plant neu oedolion.

Deilliannau dysgu

Erbyn diwedd y cwrs bydd cyfranogwyr yn:

- gwybod beth yw eu rôl eu hunain mewn perthynas â diogelu oedolion, plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod;
- deall sut y caiff unigolion eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod;
- gwybod sut i adnabod gwahanol fathau o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod; a
- gwybod beth yw'r newidiadau diweddar i ddiogelu o ganlyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Grŵp targed

Mae'r hyfforddiant wedi ei dargedu tuag at aelodau newydd o staff neu wirfoddolwyr o fewn sefydliad y mae'n ofynnol iddynt wneud hyfforddiant diogelu sylfaenol fel rhan o'u rôl. Gallai gael ei ddefnyddio hefyd fel hyfforddiant gloywi ar gyfer staff sydd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant diogelu yn flaenorol.

Y pecyn hyfforddi

Bwriad y pecyn yw rhoi set lawn o ddeunyddiau ac adnoddau i hyfforddwyr i'w galluogi i ddarparu cwrs undydd sylfaenol ar ymwybyddiaeth o ddiogelu. Mae'r deunyddiau hyfforddi'n canolbwyntio ar gyflwyniad PowerPoint a'r cynllun gwers cysylltiedig.

Bwriedir i'r pecyn fod yn hyblyg, er mwyn galluogi sefydliadau i'w addasu a chyfeirio at eu polisiau a'u gweithdrefnau eu hunain. Bwriedir i'r cwrs fod yn rhyngweithiol er mwyn galluogi'r sawl sy'n bresennol i gymryd rhan ac i'r hyfforddwr wirio dealltwriaeth a dysgu drwy ddulliau amrywiol.

Mae'r hyfforddiant wedi'i fapio yn ôl canlyniadau dysgu a meini prawf asesu uned 'Rhaglen Sefydlu ar Ddiogelu ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru' y Dyfarniad Lefel 2 mewn Sefydlu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Fodd bynnag, mae'r cwrs wedi'i gynllunio er mwyn galluogi sefydliadau i benderfynu a ydynt am i'r dysgu gael ei achredu. Os bydd sefydliadau'n dewis peidio ag achredu'r dysgu, gallant barhau i ddarparu hyfforddiant sy'n seiliedig ar ganlyniadau dysgu safonol ac sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol.



Dull darparu

Mae modd darparu'r rhaglen hyfforddi mewn sawl ffordd:

- fel cwrs achrededig undydd (gallai hyn fod ar y cyd ag unedau eraill y Fframwaith;
- fel uned achrededig ar ei phen ei hun lle mae sefydliadau am i'w hyfforddiant diogelu gael ei achredu;
- fel cwrs undydd presenoldeb yn unig; ac
- i'w darparu'n hyblyg e.e. tair sesiwn dwyawr.

Ni fwriedir i'r pecyn gael ei ddefnyddio yn ei gyfanrwydd. Disgwylir i hyfforddwyr ddewis senarios ac astudiaethau achos priodol sy'n adlewyrchu'r cyd destun y ddarperir y cwrs ynddo orau.

Asesu

Er mwyn darparu'r cymwysterau achrededig, rhaid i gyrsiau gael eu cynnig drwy ganolfan hyfforddi sydd wedi'i chymeradwyo gan sefydliad dyfarnu a rhaid i'r staff sy'n darparu'r hyfforddiant fod wedi'u cymeradwyo gan y ganolfan er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer darparu'r cwrs.

Mae'n rhaid i'r rheini sy'n bresennol sydd am gael eu hachredu gwblhau'r llyfr gwaith. Y llyfr gwaith yw'r adnodd asesu ar gyfer y rheini sydd am gyflawni'r uned. Ar ôl ei gwblhau bydd y llyfr gwaith yn cael ei asesu'n ffurfiol gan hyfforddwr / aseswr cymeradwy penodol a bydd yn destun proses sicrhau ansawdd. Mae'r uned yn rhan o'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Sefydlu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Gofynion hyfforddwyr ac aseswyr

Bydd angen i **hyfforddwyr** fodloni'r meini prawf canlynol er mwyn darparu'r cwrs:

- bod yn gymwys yn alwedigaethol neu'n wybodus yn dechnegol yn y maes y maent yn darparu hyfforddiant. Rhaid i'r wybodaeth hon gyrraedd yr un lefel â'r hyfforddiant a ddarperir yn y man lleiaf; a
- bod â phrofiad credadwy o ddarparu hyfforddiant.

Bydd angen i **aseswyr** fodloni'r meini prawf canlynol er mwyn asesu'r cwrs:

- bod yn gymwys yn alwedigaethol neu'n wybodus yn dechnegol yn y maes y maent yn ei asesu. Rhaid i'r wybodaeth hon gyrraedd yr un lefel â'r hyfforddiant a ddarperir yn y man lleiaf;
- meddu ar brofiad perthnasol diweddar yn y maes penodol y byddant yn ei asesu; ac
- meddu ar brofiad credadwy o ddarparu hyfforddiant.

Gallant gyflawni mwy nag un rôl, e.e. hyfforddwr ac aseswr neu swyddog sicrhau ansawdd mewnol, ond ni allant ddilysu eu hasesiadau eu hunain yn fewnol.



Cofrestru dysgwyr

Rhaid i ddysgwyr gael eu cofrestru yn unol â gofynion y Sefydliad Dyfarnu a'i ganolfan gymeradwy. Rhaid i ddysgwyr cofrestredig gael eu sefydlu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r ganolfan gofrestru.

Noder os bydd sefydliadau am ddilyn trywydd achrediad, eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau eu bod yn bodloni holl ofynion y Sefydliad Dyfarnu perthnasol.

Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

Mae'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn creu sylfaen gadarn i weithwyr newydd i'w helpu i ddatblygu eu hymarfer a'u gyrfa yn y dyfodol, yn ac ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn rhoi dealltwriaeth glir o'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd sydd eu hangen i sicrhau bod gweithwyr newydd yn ddiogel ac yn gymwys i ymarfer, yn y cyfnod yma o'u datblygiad.

Mae'r fframwaith sefydlu wedi'i anelu tuag at weithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'n ymdrin â gofal a chymorth i oedolion, a phlant a phobl ifanc. Mae'r fframwaith sefydlu wedi'i mapio yn gyfredol i'r Dyfarniad ar gyfer Sefydlu Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ac unedau achrededig Sefydlu GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd Clinigol (nyrsio).

Bwriedir i'r deunyddiau hyfforddi hyn a'r llyfr gwaith cysylltiedig ategu a chefnogi uned 'Rhaglen Sefydlu ar Ddiogelu yng Nghymru' y Dyfarniad L2 mewn Sefydliad Gofal Cymdeithasol. Mae'r unedau sefydlu yn defnyddio'r agweddau ar y Fframwaith yr ystyrir bod modd eu trosglwyddo o un sefydliad neu rôl i un arall o fewn gofal cymdeithasol. Felly, gellir ystyried bod cwblhau'r unedau hyn yn cyfateb i gyflawni 'pasbort' sy'n lleihau'r tebygolrwydd o ddyblygu'r hyn a ddysgir os bydd gweithiwr yn symud i rôl newydd. Gallant gael eu cwblhau gan weithwyr sydd eisoes mewn swydd neu'r rheini sydd ar fin symud i rôl yn y sector gofal cymdeithasol.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y fframwaith ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru yn:

gofalcymdeithasol.cymru

Cyfrinachedd a datgeliadau

Dylai hyfforddwyr fod yn effro i'r posibilrwydd o honiadau ac amheuon bwriadol ac anfwriadol gan gyfranogwyr yn ystod yr hyfforddiant. Mae'r cynlluniau gwersi a ddarperir yn cyfeirio at yr angen am gontract grŵp cychwynnol er mwyn sefydlu cyfrinachedd a ffiniau. Efallai y bydd hyfforddwyr am gynnwys y cyfleuster 'amser allan' i unrhyw un y mae cynnwys y diwrnod wedi effeithio arnynt a chynnig cymorth unigol i unrhyw un sydd am drafod sefyllfa benodol. Efallai y bydd hyfforddwyr am ystyried cael staff cymorth wrth law wrth drefnu cyrsiau.

Diweddarau'r pecyn

Mae'r wybodaeth yn y pecyn hwn yn gyfredol ond gan fod ymarfer yn newid o hyd, efallai y bydd angen i hyfforddwyr ddiweddarau rhai rhannau o'r pecyn hyfforddi er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu ymarfer cyfredol ar yr adeg y caiff yr hyfforddiant ei ddarparu. Adeg cyhoeddi'r pecyn hwn, mae disgwyl newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau cenedlaethol allweddol yn ymwneud ag oedolion a phlant yn dilyn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.